# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Chwefror 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(246)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.15

**Pwynt o Drefn**

Cododd Dafydd Elis-Thomas bwynt o drefn ynghylch yr eitem flaenorol, gan ofyn a oedd hi'n briodol i Aelod Cynulliad gyfeirio at gorff cyhoeddus 'fel y ci sy'n troi'n ôl at ei gyfog'. Dyfarnodd y Dirprwy Lywydd nad ei le ef oedd cyfyngu ar ddadl frathog, ond nad oedd yn ymadrodd y byddai ef ei hun wedi'i ddefnyddio mewn lle cyhoeddus.

## 3 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch Atgyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys

Dechreuodd yr eitem am 14.34

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.58

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Datganoli trethi yng Nghymru - Ymgynghoriad ar Dreth Trafodiad Tir

Dechreuodd yr eitem am 15.24

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn: Lle i'w alw'n gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.26

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio - diwygiad mewn perthynas â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Memorandwm Rhif 6)

Dechreuodd yr eitem am 17.03

**NDM5689 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio sy'n ymwneud â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Difrifol - diwygiad mewn perthynas â chyfathrebu'n rhywiol â phlentyn (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3)

Dechreuodd yr eitem am 17.04

**NDM5690 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddu Difrifol sy'n ymwneud â'r drosedd o gyfathrebu'n rhywiol â phlentyn i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân**

Cytunwyd o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 9 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.13

**NDM5693 Huw Lewis (Merthyr Tudful)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:
Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2015.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.13

**NDM5694 Huw Lewis (Merthyr Tudful)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2015.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**11 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 17.27

**NDM5691 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Cynllunio (Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**12 Penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 18.22

**NDM5692 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Cynllunio (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**13 Cyfnod pleidleisio**

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Chwefror 2015**